**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/0543/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Mawrth 2015

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror, ar ran eich Pwyllgor, yn ceisio eglurhad ynghylch nifer o bwyntiau a gododd yn dilyn sesiwn friffio gan fy swyddogion ar 21 Ionawr. Roedd y sesiwn hon yn ymwneud ag ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar y trefniadau gofal a chymorth yn y dyfodol ar gyfer derbynwyr y Gronfa Byw'n Annibynnol (y Gronfa) yng Nghymru.

Byddaf yn egluro'r pwyntiau rydych chi'n eu codi yn eich llythyr yn y drefn y'u codwyd, a hyderaf y bydd hyn yn mynd i'r afael yn foddhaol â phryderon y Pwyllgor.

Ynghylch defnyddwyr y gwasanaeth taliadau uniongyrchol, byddant ond yn derbyn yr un faint o gyllid os caiff cyllid y Gronfa ei rhoi yng ngofal cymdeithasol awdurdod drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn oherwydd y byddai holl ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys derbynwyr blaenorol y Gronfa, ond yn destun meini prawf cymhwyster yr awdurdod hwnnw i dderbyn gofal cymdeithasol amhreswyl. Mae swm y taliad uniongyrchol y mae person yn ei dderbyn yn seiliedig ar gost darparu'r un lefel o ofal pe bai awdurdod lleol yn darparu'r anghenion gofal a aseswyd yn uniongyrchol. Nid oes lefel genedlaethol na safonol ar gyfer taliad uniongyrchol; caiff hyn ei benderfynu'n lleol ar sail galw ac adnoddau i ddarparu gofal cymdeithasol amhreswyl.

Os caiff unrhyw un o'r opsiynau eraill ar gyfer trefniadau'r Gronfa yn y dyfodol eu mabwysiadu, yna ni fyddai defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael taliadau uniongyrchol gan eu hawdurdod lleol yn cael yr un faint o gyllid â'r rheini sy'n derbyn gofal a chymorth y Gronfa a'r awdurdod lleol.

Byddai'r rheoliadau asesu a chymhwyster o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn berthnasol i dderbynwyr presennol y Gronfa yn unig pe bai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i Grant Cynnal Refeniw yr awdurdodau lleol. Mae hyn oherwydd y byddai pob defnyddiwr gwasanaeth yn destun ffurf safonol o asesu anghenion gofal. Mae derbynwyr y Gronfa wedi bodloni meini prawf asesu a chymhwyster eu hawdurdod lleol, ac ar ben hynny, bu'n rhaid iddynt meini prawf y gronfa i dderbyn arian ychwanegol ar gyfer eu gofynion gofal a chymorth. Er i'r Gronfa gau'r cynllun i ymgeiswyr newydd o 2010, cyn hynny byddai'r derbynwyr yn cael gwasanaethau gofal awdurdod lleol o £340 o leiaf, sef cost darparu'r lefel o ofal a aseswyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Hefydd byddai'n rhaid i'r unigolyn fod yn derbyn Cyfradd Uchaf Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl neu Elfen Ofal Uwch y Taliad Annibyniaeth Bersonol i wneud cais am gyllid y Gronfa. Yna byddent yn destun asesiad pellach o'u hanghenion gofal gan y Gronfa cyn y byddai modd rhoi dyfarniad.

Mae'r trefniadau taliadau uniongyrchol yn cael eu hadeiladu yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghylch asesu, cymhwyster a chodi ffioedd. Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd dalu fesul awr yn y Ddeddf ; mae'n ddibynnol ar adnoddau a galw'r awdurdod lleol ac yn gyfyngedig i gost y ddarpariaeth ofal y cytunwyd arni gan awdurdod o'i gymharu â chost darparwr gofal annibynnol. Bydd hyn yn amrywio o un awdurdod i'r llall, ac nid oes isafswm neu swm cenedlaethol, na chyfradd fesul awr, ar gael ledled Cymru.

Gwnaeth Llywodraeth y DU y penderfyniad i gau cynllun presennol y Gronfa a throsglwyddo'r cyfrifoldeb amdani i'r gweinyddiaethau datganoledig heb drafodaeth na chytundeb blaenorol gyda'r gweinyddiaethau. Cyfrifoldeb newydd ac ychwanegol yw hwn a fydd yn gofyn am gyllid parhaus gan Lywodraeth Ganolog er mwyn i dderbynwyr y Gronfa barhau i gael y gofal a'r cymorth y maent yn eu haeddu oherwydd eu hanabledd neu salwch. Yn amlwg, bydd llai o bobl yn derbyn y Gronfa dros gyfnod, a fydd yn arwain at ddarparu llai o gyllid. Ar hyn o bryd, mae £20.4m wedi cael ei ddyrannu rhwng mis Gorffennaf 2015 a diwedd mis Mawrth 2016. Mae'r ffigur yn seiliedig ar nifer y bobl yn derbyn y Gronfa ar ddiwedd mis Mehefin sy'n parhau i dderbyn eu lefel bresennol o gyllid. Bydd cyllid wedi mis Mawrth flwyddyn nesaf yn ddibynnol ar drafodaethau yn y Rownd Wariant nesaf. O ystyried y cafodd y cyfrifoldeb dros weinyddu'r Gronfa ei orfodi ar Lywodraeth Cymru, heb drafodaeth cyn hynny, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU dderbyn bod dyletswydd arni i ddarparu cyllid priodol ar gyfer y dasg newydd ac ychwanegol hon. Ni all Llywodraeth roi cyllid neu gymhorthdal am bob newid mewn cyfrifoldeb y mae Llywodraeth y DU yn penderfynu arno ac yn ei drosglwyddo i ni ymdrin ag ef. Wrth gwrs, byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i warchod pobl, fel y rheini sy'n derbyn cyllid y Gronfa, sydd angen anghenion gofal sylweddol. Fodd bynnag, ni allaf roi unrhyw sicrwydd i chi a'ch Pwyllgor na fydd penderfyniad Llywodraeth y DU i derfynu cynllun presennol y Gronfa yn effeithio ar unrhyw un.

Wrth ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer trefniadau yn y dyfodol ar gyfer derbynwyr y Gronfa, ystyriais y materion a godwyd gan eich Pwyllgor yn eich llythyr. Mae hyn yn cynnwys beth fyddai eu heffaith ar y lefel bresennol o gymorth a gofal pe byddai'r cyllid yn cael ei roi yn y Grant Cynnal Refeniw heb warchod y cyllid fel sy'n digwydd yn y Gronfa, ynghyd â'r ffordd orau o barhau i ddarparu'r un faint o gyllid ag y maent yn ei dderbyn i'w caniatáu i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau.

Byddaf yn gwneud datganiad ysgrifenedig i'r aelodau yr wythnos nesaf yn amlinellu fy mhenderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services